



Tribiwnlys y Gymraeg
Welsh Language Tribunal

Tribiwnlys y Gymraeg

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi: **Ebrill 2015**

Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg

Cynulleidfa	Aelodau'r cyhoedd, y cyrff a fydd yn destun y set gyntaf o safonau'r Gymraeg, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y Rheolau.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Reolau arfaethedig Tribiwnlys y Gymraeg, a gynhaliwyd rhwng 24 Tachwedd 2014 a 19 Ionawr 2015.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Huw Williams Tribiwnlys y Gymraeg Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: tyg@cymru.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau
Dogfennau cysylltiedig	Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cynnwys

Cyflwyniad a throsolwg	2
Ymatebion i'r ymgynghoriad – dadansoddiad	3
Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb TyG i'r sylwadau	5

Cyflwyniad a throsolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law Tribiwnlys y Gymraeg i'r ymgynghoriad ar Reolau Tribiwnlys y Gymraeg. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 24 Tachwedd 2014 a 19 Ionawr 2015.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn holi barn pobl am Reolau drafft Tribiwnlys y Gymraeg. Swyddogaeth y Tribiwnlys yw penderfynu ar heriau i ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â gosod a gorfodi dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg. Pwrpas cael rheolau gweithdrefnol yw sicrhau bod yr holl achosion sy'n mynd gerbron y Tribiwnlys yn cael eu trin yn deg ac yn gyson. Mae angen i bawb sy'n dod ag achos gerbron y Tribiwnlys ddeall yn union pa gamau sydd rhaid iddynt eu cymryd er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'u dadleuon yn effeithiol i'r Tribiwnlys. Rhaid iddynt hwy, ac unrhyw barti arall i'r achos hefyd wybod pa ddadleuon eraill y bydd y Tribiwnlys yn eu hystyried.

Gwahoddwyd sylwadau gan ystod o sefydliadau gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, sefydliadau y mae'r gyfres gyntaf o safonau'n berthnasol iddynt (Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Sir yng Nghymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a Gweinidogion Cymru), ac aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb yn Rheolau'r Tribiwnlys.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a'i hyrwyddo drwy ffrydiau Llywodraeth Cymru yn y cyfryngau cymdeithasol. Cyflwynodd Llywydd y Tribiwnlys gyfres o seminarau ar draws Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Rheolau.

Y Rheolau drafft y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yw'r Rheolau yr ymgynghorwyd arnynt ac sydd i'w cael yn y ddogfen ganlynol:

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/141124-tribunal-rules-cy.pdf>

Ymatebion i'r ymgynghoriad – dadansoddiad

Cafwyd 6 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Sefydliadau (2):

- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Sir y Fflint

Grwpiau lobiïo/buddiant (2):

- Cymdeithas yr Iaith
- Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd (CAJTW)

Unigolion (2):

- Catrin Fflur Huws
- Aelod anhysbys o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried 9 cwestiwn penodol. Cawsant gyfle hefyd i fynegi barn ar unrhyw faterion cysylltiedig nad oeddent wedi'u trafod yn benodol yn y ddogfen ymgynghori. Dyma oedd y 9 cwestiwn penodol:

C.1 - A oes yna ddarpariaethau yn y Rheolau drafft sydd, yn eich barn chi, yn aneglur yn eu heffaith ac, os felly, pa rai ydynt?

C.2 - A oes yna ddarpariaethau yn y Rheolau drafft na fyddant, yn eich barn chi, yn effeithiol (gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn yr amcan pennaf) ac, os felly, pa rai ydynt?

C.3 - Beth yw eich barn am ddefnyddioldeb y ddyletswydd o dan reol 7 i dynnu sylw'r partion, pan fo'n briodol, at weithdrefnau amgen ar gyfer datrys anghydfod?

C.4 - Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai ceisiadau am ganiatâd i wneud cais am adolygiad, o dan adran 103 o'r Mesur, o benderfyniad gan y Comisiynydd, gael eu hystyried gan y Tribiwnlys, yn y lle cyntaf, "ar bapur" hynny yw, heb wrandawriad?

C. 5 - Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod gan geisydd arfaethedig hawl i ailystyriaeth, mewn gwrandawriad, o benderfyniad gan y Tribiwnlys i wrthod caniatâd i wneud cais am adolygiad, o dan adran 103 o'r Mesur?

C.6 - Mae rheolau 18, 20 ac 21 yn pennu 20 diwrnod gwaith fel y cyfnod safonol ar gyfer cyflwyno datganiadau achos. A yw hyn, yn eich barn chi, yn briodol ac, os na, pa gyfnod dylid ei ganiatáu?

C.7 - Mae rheol 48 yn rhoi hawl i barti i gael adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys o dan rai amgylchiadau (sy'n cael eu rhestru ym mharagraff (1)). A yw'r rhestr hon yn briodol ac, os na, pa amgylchiadau fyddai'n cyfiawnhau adolygiad?

C.8 - Mae rheol 63 yn caniatáu, yn gyffredinol, y dulliau canlynol ar gyfer anfon dogfennau sef: post dosbarth cyntaf, ffacs, neu e-bost. A oes angen cynnwys pob un o'r dulliau hyn ac, os na, pa un neu rai y gellid ei hepgor?

C.9 - O dan reol 63(6) mae gan barti sy'n derbyn dogfen trwy ddull electronig yr hawl i fynnu copi caled hefyd. A yw hyn yn angenrheidiol yn eich barn chi?

Gwnaeth fformat yr ymatebion amrywio - gwnaeth 1 sefydliad ac 1 unigolyn ymateb drwy ddefnyddio'r holiadur a ddarparwyd. Anfonodd Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru un sylw penodol gan aelod a oedd yn dymuno aros yn ddiennw. Ymatebodd 1 sefydliad a'r ddau grŵp lobïo/buddiant drwy ddefnyddio llythyr/dogfen.

Mae'r holl sylwadau gan y 6 ymatebydd, gan gynnwys eu hymatebion i'r holiadur, i'w gweld yn Nhabl 1. Ceir hefyd ymateb Keith Bush FC, Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg, i bob un o sylwadau'r ymatebwyr. Mae'r dyfyniadau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno, ac maent wedi'u priodoli i sefydliad/unigolyn os yw'r sefydliad neu'r unigolyn dan sylw wedi rhoi ei ganiatâd.

Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb TyG i'r sylwadau

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
3	<p>Credwn y dylid ychwanegu'r canlynol at y rhestr fel nad oes modd i bartïon ddadlau bod parti sy'n mynnu defnydd o'r Gymraeg yn ymddwyn yn annheg:</p> <p>"(f) parchu statws swyddogol y Gymraeg;</p> <p>(g) hawliau partiön i ddefnyddio, gweld a chlywed y Gymraeg"</p>	Cymdeithas yr Iaith	Cytunwn y dylai'r amcan pennaf gynnwys cyfeiriad penodol at gydraddoldeb rhwng y ddwy iaith mewn perthynas â thrafodion y Tribiwnlys. Mae rheol 3(2)(d) yn cyflawni hyn. Bydd y ddarpariaeth hon yn atgyfnerthu'r hawl o dan Reol 6(2). Dylid nodi fod yn Rheol 5 yn rhoi dyletswydd ar bartïon i gynorthwyo'r Tribiwnlys i hyrwyddo'r amcan pennaf.
6	<p>Croesewir y cyfeiriad at ieithoedd y Tribiwnlys yn rheol 6. Mae cyfeirio at y Gymraeg yn y rheolau yn bwysig er mwyn gosod sail gref i'r Gymraeg yng ngwaith y Tribiwnlys. Gall hefyd gyfrannu tuag at gynyddu ymwybyddiaeth partiön a thystion o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn nhrefodion y Tribiwnlys. Mae'n bosib maes o law, y bydd angen trafodaeth gyda chi (y Llywydd) ynghylch rhoi'r rheol hwn ar waith yn arbennig os oes bwriad i ymhelaethu ar y rheol yn y cyfarwyddiadau ymarfer a gyhoeddir maes o law.</p>	Comisiynydd y Gymraeg	Mae'n amlwg y bydd angen rhoi ystyriaeth ddwys i'r trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu rheol 6, er mwyn sicrhau y bydd y trefniadau hynny'n rhai effeithiol a phriodol. Bydd hynny'n cael ei wneud trwy gyfrwng y broses o lunio Cyfarwyddyd Ymarfer yn unol â gofynion rheol 6(3) ac adran 124 o'r Mesur. Bydd ymgynghori gyda'r cyhoedd yn rhan ganolog o'r broses honno.
6	<p>Mater arwyddocaol nas ystyrir yma o gwbl yw tegwch ieithyddol yn y tribiwnlys. Mewn nifer o achosion bydd un parti yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r llall yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg. Yng nghyd-destun dogfennaeth ysgrifenedig, rhaid ystyried pwy sydd yn cyfieithu'r ddogfennaeth - ai'r parti sydd yn ei gyflwyno ynteu</p>	Catrin Fflur Huws	(gweler uchod)

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
	<p>tribiwnlys. Os y parti, a yw hynny yn ymyrryd a rheol 6. Os y tribiwnlys, beth yw oblygiadau hyn o ran cost, a chyflymder. Y mae rheol 6 yn cyfeirio at yr ieithoedd a ddefnyddir gan y tribiwnlys, ond nid yw hyn yn cyfeirio at yr ieithoedd priodol ar gyfer y partiön. Gan hynny, petai'r naill barti neu'r llall yn cyflwyno dogfennaeth ond mewn un iaith, rhaid ystyried beth sydd yn ymateb priodol. Er enghraifft petai y Comisiynydd Iaith ond yn cyflwyno'r dystiolaeth yn Gymraeg (fel sydd yn ragweladwy o ystyried fod y Comisiynydd Iaith yn ystyried - yn unol a'r safonau iaith - fod y corff cyhoeddus yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog) a all y corff cyhoeddus fynnu ar fersiwn Saesneg? Ar y llaw arall, os yw'r corff cyhoeddus yn gwrthwynebu i'r safonau iaith, a allen nhw gyflwyno fersiwn uniaith Saesneg - ac a oes modd i'r Comisiynydd fynnu ar fersiwn Gymraeg? Nid yw mynegi beth yw iaith weithredol y tribiwnlys felly yn ddigonol - rhaid mynegi hefyd pa iaith/ieithoedd ddylai'r partiön ddefnyddio ar gyfer dogfennau ysgrifenedig - a ddylid cyflwyno pob dim yn ddwyieithog ynteu yn yr iaith ddewis neu'r iaith a ddefnyddir ar gyfer gwrandawiadau ar lafar?</p> <p>Rhaid hefyd ystyried beth yw oblygiadau cyfieithu ar gyfer parhad y broses, yn enwedig felly os bydd e yn effeithio ar y dyddiadau cyflwyno.</p> <p>Mewn gwrandawiadau llafar, rhaid ystyried natur a rôl cyfieithu. Y tueddiad yn y gorffennol yw i gyfieithu un ffordd yn unig – o'r Gymraeg i'r Saesneg. Fodd bynnag, y mae cyfieithu yn y modd hyn yn peri i'r Gymraeg fod yn llai rhugl na'r Saesneg, ac felly yn trin y siaradwr Cymraeg yn llai ffafriol. Rhaid ystyried felly a yw'n briodol i gael cyfieithu</p>		

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
	<p>ddwy ffordd, fel fod y naill barti a'r llall yn derbyn gwrandawriad yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid hefyd ystyried oblygiadau cyfansoddiad y tribiwnlys. O ran gwrandawriad teg, rhaid ystyried</p> <ul style="list-style-type: none"> -pa iaith fydd y tribiwnlys yn ddeall -pa iaith fydd y tribiwnlys yn gweithredu ynddi -beth yw oblygiadau penderfynu pa iaith a ddefnyddir yn gyntaf <p>Mater arall i'w ystyried yw y bydd safonau yn dod i fodolaeth mewn amser a fydda yn rheoleiddio gweithdrefn y tribiwnlys. O ystyried hynny, rhaid ystyried materion o weithrediad dwyieithog gan y tribiwnlys ei hunan. Fodd bynnag, rhaid hefyd sicrhau nad dim ond y Gymraeg gaiff ei thrin yn anffafriol, ond hefyd y gall prosesau sydd yn manteisio y parti cyfrwng Cymraeg effeithio yn andwyol ar y parti nad yw yn siarad Cymraeg.</p> <p>Rhaid ystyried beth yw effaith y broses ar apeliadau. Er fod modd i apeliadau i'r Uchel Lys gael eu clywed yn Gymraeg yng Nghymru, rhaid ystyried beth fydd yr oblygiadau o safbwynt achosion gerbron llysoedd uwch. Er nad yw hynny yn briodol i'w gynnwys yn uniongyrchol yn y rheolau gan fod y tu hwn i bwerau'r tribiwnlys, rhaid ystyried yr oblygiadau o ran iaith y deunydd a gyflwynnir i'r tribiwnlys – gan na bydd y llysoedd uwch o reidrwydd yn darllen yr un fersiwn o'r dystiolaeth a'r tribiwnlys. Hefyd, y mae hyn yn berthnasol i weithdrefnau'r tribiwnlys o ran yr iaith a ddefnyddir ar gyfer eu penderfyniadau.</p>		

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
6(1)	<p>Sylwadau Cyffredinol</p> <p>Credwn fod y rheol iaith fel y'i hamlinellir yn Rheol 6(1) yn anghyfreithlon gan ei bod yn groes i brif egwyddorion Mesur y Gymraeg 2011, sef mai'r Gymraeg yw'r iaith swyddogol yng Nghymru yn hytrach nag unrhyw iaith arall. Credwn ymhellach fod y rheol honno yn methu â chydabod yr hawliau i'r Gymraeg wrth ymdrin ag achosion gerbron y Tribiwnlys, y mae'r Tribiwnlys ei hunan i fod i'w gwarchod. Dylai fod hawl i dderbyn yr holl bapurau a gwybodaeth wrth ymdrin â'r Tribiwnlys yn Gymraeg, ac mae'n syndod nad oes cydnabyddiaeth o'r hawl sylfaenol honno yn y rheolau.</p> <p>Dylai'r rheolau annog cyfranogaeth yn Gymraeg, gan wneud darpariaeth i bobl sy'n hyderus wrth siarad Cymraeg ond yn llai hyderus gyda thermau technegol neu wrth ysgrifennu - o bosib gan ddarparu cyfaill iaith Gymraeg i ddysgwyr neu bobl sy'n llai hyderus eu Cymraeg yn ôl yr angen.</p> <p>Sylwadau Manwl</p> <p>Credwn fod y rheol iaith hon yn anghyfreithlon, gan ei bod yn anwybyddu egwyddorion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, megis statws swyddogol y Gymraeg, yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a'r bwriad i'r Mesur sefydlu hawliau i'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd. Dydy Mesur y Gymraeg ddim ond yn sefydlu un iaith swyddogol yng Nghymru, sef y Gymraeg, felly nid oes sail gyfreithiol i osod iaith arall ar yr un lefel. Os yw'r Tribiwnlys am geisio rheoleiddio'n gyson ag egwyddorion Mesur y Gymraeg, bydd rhaid ailystyried sut</p>	Cymdeithas yr Iaith	<p>Seiliwyd y Rheolau ar yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Credir bod hynny'n hollol gyson â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, bydd gweithredu'r egwyddor honno'n effeithiol yn gofyn am ystyriaeth drylwyr o'i holl oblygiadau ymarferol. Byddwn yn croesawu trafodaeth bellach yng nghyd-destun llunio'r Cyfarwyddyd Ymarfer perthnasol.</p>

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
	<p>mae'r rheol hon wedi ei llunio. Os nad oes ailystyriaeth ac ail-lunio, byddwn yn ystyried unrhyw gamau cyfreithiol y gallwn ni eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion y ddeddfwriaeth sylfaenol. Awgrymwn felly y dylid ail-lunio'r rheol fel a ganlyn:</p> <p><i>"6 (1) Iaith swyddogol y Tribiwnlys yw'r Gymraeg</i></p> <p><i>(2) Mae gan bob parti neu dyst yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn nhrefodion y Tribiwnlys, wrth gyfathrebu gyda'r Tribiwnlys, a'r hawl i dderbyn yr holl wybodaeth ynghylch achosion a thrafodion y Tribiwnlys yn Gymraeg</i></p> <p><i>(3) Bydd y Tribiwnlys yn gweithio yn unol â'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ei weithdrefnau ac wrth arfer ei swyddogaethau"</i></p>		
6(2)	<p>"Every party or witness has the right to use both languages..." Should be the right to use both languages – must they use either one exclusively?</p>	<p>Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (CAJTW)</p>	<p>Mae fersiwn derfynol rheol 6(2) yn datgan yn glir y gall parti ddefnyddio ieithoedd gwahanol at ddibenion gwahanol.</p>
7	<p>(Responding to Q3) This is very useful and will encourage both parties to explore alternative methods for agreeing a resolution without resorting to the Tribunal. The Tribunal should only be used as a final means to resolve any disagreements about compliance and fairness of investigations. This will help organisations and individuals avoid unnecessary costs, both time and money, that will be associated with Tribunals.</p>	<p>Cyngor Sir y Fflint</p>	<p>Nodwyd.</p>

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
7	Er bod hyn yn fanteisiol o ran arbed costau ac amser, rhad ystyried eu heffeithlonrwydd o safbwynt natur asgwrn y gynnen yn yr achosion ddaw gerbron y tribiwnlys. Mewn achosion gerbron y tribiwnlys, y mae'r dewis i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yn sydd yn gweithio yn naturiol. Fodd bynnag nid yw hyn mor llwyddiannus mewn cyd-destunau eraill, yn enwedig lle mae cymodwr annibynnol yn y mater, achos bod hyn yn effeithio ar batrwm gweithrediad gweinyddol y mater. Yn ddiweddar mae twf wedi bod mewn achosion lle mae datrys anghydfod yn digwydd arlein. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o weithio oherwydd fod achosion sydd yn mynd at dribiwnlys yr iaith Gymraeg yn mynd i olygu un person sydd yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg (y Comisiynydd) a pherson arall nad yw yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Catrin Fflur Huws	Nodwyd. Gan mai dim ond pan fydd hynny'n "briodol" y bydd y dyletswydd yn codi, ni fwriedir newid rheol 7.
7(1)	Nodwn fod rheol 7(1) yn gwneud darpariaethau ar gyfer gweithdrefnau amgen er mwyn datrys anghydfodau. Credwn nad oes angen rhoi cymaint o bwyslais ar y elfen hon gan fod natur y drefn cyn apêl i'r Tribiwnlys yn cynnig nifer o gyfleoedd i ddatrys anghydfod drwy weithdrefn amgen eisoes. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oes angen diwygio'r rheolau drafft. Un posibiliad yw cyfeirio at unrhyw gyfleoedd a oedd gan y partïon i ddatrys anghydfod cyn i'r achos ddod gerbron y Tribiwnlys fel ffactor i'w hystyried wrth ddefnyddio'r pŵerau o dan y rheol hon.	Cymdeithas yr Iaith	Nodwyd (a gweler uchod)
9	Mae'r amodau yn ymddangos yn rhai safonol, ond ni chyfeirir at yr angen am brofiad a gwybodaeth briodol er mwyn bod yn aelod. Dylid ystyried er enghraifft i ba raddau y	Comisiynydd y Gymraeg	Ni all Rheolau gweithdrefnol y Tribiwnlys ymwneud â chymhwysterau aelodaeth o'r Tribiwnlys gan fod hynny'n fater sydd, o

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
	byddai profiad neu wybodaeth ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn fanteisiol ar gyfer bod yn aelod a dylid adlewyrchu hynny yn y rheolau.		dan y Mesur, yn nwylo Gweinidogion Cymru. Gwnaed Rheoliadau ganddynt – Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) 2013 – sy'n ymwneud (ymhlith pethau eraill) â gwybodaeth aelodau'r Tribiwnlys o'r Gymraeg.
11(1) & 12(d)	Refers to "...the date when the applicant was given notice" however, 12(d) refers to "...the date on which the person making the application..." Should 12(d) also refer to the "applicant"?	CAJTW	Derbyniwyd – gwnaed y newid hwn a nifer o newidiadau tebyg.
13(4)	Nid wyf yn deall sut gall ceisydd barhau ag achos sydd y tu hwnt i bwerau'r tribiwnlys.	Catrin Fflur Huws	Mae'r weithdrefn o dan reol 13 wedi'i hadolygu a'i chryfhau mewn ymateb i'r sylw hwn.
13(5)	A yw hyn yn cyfeirio at wall o ran proses (e.e. cam adnabod yr atebydd), gwall sillafu, ynteu wall o ran sylwedd yr achos?	Catrin Fflur Huws	Gwnaed diwygiad er mwyn ei gwneud yn glir mai gwallau clerigol, ac yn y blaen, sydd mewn golwg.
13(7)	The Committee suggests that the time period should be 10 days (see also the typo "an wish" in this paragraph)	CAJTW	Derbyniwyd
15	Beth os na dderbynnir y cyfarwyddid mewn pryd. A yw rheol 14 yn parhau i fod un berthnasol?	Catrin Fflur Huws	Rheol 53 byddai'r un perthnasol.
16(1)	Nid yw'n glir pam nad oes prawf tebyg i bob math o achos a fydd yn cael ei ystyried gan y Tribiwnlys. Heb brawf o'r fath, ymddengys y bydd unigolion yn gorfod bodloni trothwy uwch	Cymdeithas yr Iaith	Mae'r gwahaniaeth yn deillio o'r driniaeth wahanol y mae'r Mesur yn rhagnodi ar gyfer cais o dan adran 103.

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
	na chyrrff a chwmnïau.		
17(1)	Gwall: mewnosod 'caiff' yn lle 'saiff'	Cymdeithas yr Iaith	Nodwyd
18(1)	The applicant's case statement period of 20 working days starts when notice is given under 13(1), but the tribunal may subsequently rule it is outside its jurisdiction under 13(3) by which time significant work may have been done and cost incurred. The Committee asks whether it would not be better and fairer for the case statement period to begin once the tribunal signals that it considers the case is within its jurisdiction? That need not take much time, especially if very few cases are brought.	CAJTW	Nid yw cyfnod datganiad achos y ceisydd yn dechrau nes bod hysbysiad wedi'i roi o dan reol 13(1)(b)(iv). Mae'r rheol 13 diwygiedig yn datgan yn glir na ddylid rhoi hysbysiad o'r fath os rhoddir hysbysiad o dan 13(3) a nes bod y materion sy'n gysylltiedig â'r hysbysiad wedi'u datrys.
18 & 20	Mae rheolau 18 & 20 yn delio gyda chyfnodau datganiad achos a thystiolaeth y ceisydd a'r Comisiynydd. Nid yw'r cyfnod yn datganiad achos a gynhigir, sef 20 diwrnod gwaith, yn ddigonol. Bydd y Comisiynydd yn barti ymhob achos a gaiff ei ystyried gan y Tribiwnlys ac mae'n bosibl y bydd mwy nag un achos ar fynd ar unrhyw un adeg. Gall hynny roi pwysau sylweddol ar amser ac adnoddau'r Comisiynydd. Nodaf mai 30 diwrnod gwaith yw cyfnod datganiad Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, ac argymhellaf fod Tribiwnlys y Gymraeg yn caniatáu cyfnod tebyg.	Comisiynydd y Gymraeg	Mae 20 diwrnod gwaith yn cyfateb i o leiaf 4 wythnos. Bydd pob achos a ddaw o flaen y Tribiwnlys yn apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed eisoes gan y Comisiynydd. Tasg y Comisiynydd, er mwyn ymateb i ddatganiad achos y ceisydd, fydd crynhoi sail y Comisiynydd am wneud y penderfyniad hwn, yn hytrach na chasglu unrhyw dystiolaeth newydd neu lunio dadleuon newydd. Credir y bydd pedair wythnos yn ddigon er mwyn gwneud hynny – oni bai bod yr amgylchiadau'n rhai eithriadol. Os bydd amgylchiadau felly'n codi, bydd modd i'r Comisiynydd (neu unrhyw barti arall) ofyn i'r Tribiwnlys ymestyn y cyfnod.

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
18, 20 & 21	(Responding to Q6) No - Would appreciate 28 working days to ensure relevant officers are available to prepare statements and adequate time for translation if required.	Cyngor Sir y Fflint	Mae 20 diwrnod gwaith yn cyfateb i o leiaf 4 wythnos. Bydd pob achos a ddaw o flaen y Tribiwnlys yn apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed eisoes gan y Comisiynydd. Tasg y Comisiynydd, er mwyn ymateb i ddatganiad achos y ceisydd, fydd crynhoi sail y Comisiynydd am wneud y penderfyniad hwn, yn hytrach na chasglu unrhyw dystiolaeth newydd neu lunio dadleuon newydd. Credir y bydd pedair wythnos yn ddigon er mwyn gwneud hynny – oni bai bod yr amgylchiadau'n rhai eithriadol. Os bydd amgylchiadau felly'n codi, bydd modd i'r Comisiynydd (neu unrhyw barti arall) ofyn i'r Tribiwnlys ymestyn y cyfnod
18, 20 & 21	(Ymateb i C.6) Nac ydy - Cyfeirir mewn rheolau eraill at gyfnodau gwahanol e.e. 28 diwrnod. Er mwyn cysoni'r broses, dylid sicrhau fod y cyfnodau yn gyson.	Catrin Fflur Huws	Nodwyd. Mae'r cyfnodau o 28 diwrnod wedi'u pennu gan y Mesur. 20 diwrnod gwaith (sy'n cyfateb, yn gyffredinol, i 28 diwrnod) sy'n safonol yn y Rheolau oni bai fod cyfnod byrrach yn briodol.
19(5)	Gwall: Pedwaredd linell - mewnosod 'gwrandawriad' yn lle 'gwrandaw'	Cymdeithas yr Iaith	Nodwyd a chywirwyd.
21(2)	Gwall: mewnosod 'dod i law' yn lle 'dod u law'	Cymdeithas yr Iaith	Nodwyd a chywirwyd.
22(1)(c)	Gwall: mewnosod 'parti' yn lle 'party'	Cymdeithas yr Iaith	Nodwyd a chywirwyd.

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
24(a)(i)	Gellid ychwanegu i'r rhestr o ystyriaethau hyn a yw'r parti yn siaradwr Cymraeg a fyddai'n elwa o gymorth gydag iaith ysgrifenedig neu dechnegol yn Gymraeg.	Cymdeithas yr Iaith	Pwrpas rheol 24 yw galluogi'r Tribiwnlys i gasglu gwybodaeth a fydd yn hwyluso trefniadau ymarferol ar gyfer y gwrandawriad. Ni fydd angen i'r partïon rhoi rhybudd o fwriad i ddefnyddio Cymraeg – gwneir y trefniadau ar gyfer hynny'n awtomatig. Ni fyddai'n briodol i'r Tribiwnlys ymyrryd yn y ffordd y bydd parti'n cyflwyno'i achos.
24(a)(ii) i)	The Committee is not clear about the reason for asking for the occupation of a witness who is not an expert witness	CAJTW	Derbyniwyd – mae'r gofyniad wedi'i ddileu.
24(v)	Should this not also ask what reasonable adjustments are sought?	CAJTW	Derbyniwyd a chywirwyd.
28	Mae risg gall gwasanaeth y Tribiwnlys gael ei gamddefnyddio. Dylid osgoi i'r graddau sy'n bosib cynnal achosion sydd heb seiliau rhesymol neu wacsaw ac yn flinderus. Rwy'n croesawu felly'r cyfeiriad penodol at hynny yn rheol 28 ar y pŵer i ddileu cais.	Comisiynydd y Gymraeg	Nodwyd. Dylai'r diwygiadau i reol 13 fod o gymorth hefyd.
30(3)	Gellid geirio hyn yn well. Beth yw ystyr "pa un a fyddai'r dystiolaeth yn dderbyniadwy ai peidio mewn treial sifil yng Nghymru a Lloegr. Tybiaf mai'r hyn a olygir gan hyn yw bod modd i'r tribiwnlys dderbyn tystiolaeth "boed y dystiolaeth hwnnw yn dderbyniol ai pheidio". Beth yw oblygiadau hyn o ran dilysrwydd y dystiolaeth o ran credadwyedd (e.e. derbyn	Catrin Fflur Huws	Credir fod yr ystyr yn glir – sef nad yw'r "strict rules of evidence" yn gymwys. Ond gwnaed rhai gwelliannau i'r geiriad.

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
	tystiolaeth eilaidd) a thegwch y broses o ganfod yr wybodaeth hwnnw.		
38	Mae rheol 38 yn ymrwymo'r Tribiwnlys i gynnal pob un o'i wrandawiadau yn gyhoeddus. Mae'n bosibl na fyddai'n briodol gwneud hynny ymhob achos fodd bynnag, er enghraifft gwrandawriad sy'n deillio o gwyn gan berson ble fo amgylchiadau'r gwyn yn sensitif. Argymhellaf bod yr ymrwymiad yn rheol 38 yn cael ei addasu i ganiatáu gwrandawiadau preifat (neu rannau o wrandawiadau yn breifat) o dan rhai amgylchiadau.	Comisiynydd y Gymraeg	Derbyniwyd. Diwygiwyd y geiriad.
40	(Ymateb i C.2) Rhaid hefyd ystyried beth fydd oblygiadau cyfieithu y tribiwnlys. Cyfeiria nifer o'r rheolau e.e. rheol 40 at dystiolaeth ond ni fynegir pa iaith dylsid cyflwyno y dystiolaeth hynny. Os cyflwynir ef mewn un iaith yn unig, ai'r tribiwnlys fydd yn gyfrifol am y gwaith o gyfieithu'r ddogfennau, a beth yw oblygiadau hyn o safbwynt datrys yr anghydfod.	Catrin Fflur Huws	Gweler uchod mewn perthynas â rheol 6
40	Cyfeirir at hawl partion yng nghwrs gwrandawiadau i alw tystion yn rheol 40. Nid yw'n ymddangos fodd bynnag bod unrhyw gyfyngu ar y nifer o dystion y gellir eu galw mewn gwrandawiadau. Os nad oes rheolaeth dros y nifer o dystion gallai hynny effeithio'n andwyol ar weithrediad gwrandawiadau. Cynigir felly bod cymal yn cael ei ychwanegu sy'n caniatáu cyfyngu ar y nifer o dystion mewn gwrandawriad.	Comisiynydd y Gymraeg	Cryfhawyd rheol 30 – gweler 30(1)(c).
44(2)(b)	This provides “the Chair may announce provisional conclusions reached by the tribunal panel, the provisional	CAJTW	Derbyniwyd. Diwygiwyd y geiriad.

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
)	conclusions are not a decision of the tribunal panel.” It corresponds with a SENTW rule, and the Committee can understand why that tribunal may wish to share provisional conclusions. But it asks whether it is appropriate for the likely issues and parties which will come to the Welsh Language Tribunal. If that paragraph is to remain, the words after the comma should (as in the case of SENTW’s rules) be a separate sentence.		
47(3)	There should be a full stop after “consent” followed by a new sentence. The Committee considers that the practical implementation of this paragraph may be difficult. It is likely to be the case that, after its deliberation, the tribunal panel will come to its decision. Whilst that decision can (as required by the draft rule) be recorded immediately in a document, it is doubted whether the reasoned judgement could also be immediately recorded, even if only in its summary form. More likely is that, having reserved judgement, the Chair of the tribunal panel will in due course draft the reasoned judgement and will circulate it to the members for comment and possible revision. Only then will the reserved judgement be in a form ready for signature etc.	CAJTW	Derbyniwyd. Diwygiwyd ac eglurwyd y geiriad.
48	(Responding to Q7) Yes - Yes, these are consistent with other Tribunals.	Cyngor Sir y Fflint	Nodwyd. Ond mae'r rheol wedi'i diwygio a'i thynhau er mwyn sicrhau y bydd cais am adolygiad ond yn cael ei dderbyn mewn amgylchiadau priodol.. Fel arall, bydd y parti tramgwyddedig ond yn cael apelio i'r llysoedd ar bwynt cyfreithiol.

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
48	(Ymateb i C.7) Nac ydy - Rhaid ystyried cysondeb efo'r hyn sydd yn ddisgwyliedig mewn tribiwnlysoedd eraill, a gweithredu mewn modd sydd yn gyson. Rhaid hefyd ystyried pa mor deg ydyw fod yr un panel yn ail ystyried y mater, gan eu bod yn debygol o gyrraedd yr un penderfyniad. Byddai yn fwy priodol petai adolygiad yn digwydd gan banel annibynnol.	Catrin Fflur Huws	Gweler uchod.
55	Section 55 (1) (b) of the draft rules relating to costs does not seem to exempt from costs orders third sector representatives such as Citizens Advice or pro bono solicitors who may not be prepared to give representation given this rule. There is no maximum amount of costs which is a provision in the Employment Tribunal Rules. Costs orders do not appear to be related to ability to pay as in the Employment Tribunal	Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru	Mae rheol 55(1) yn cyfyngu'r pŵer i wneud gorchmynion mewn perthynas â chostau a threuliau i achosion eithriadol sy'n ymwneud ag ymddygiad "amhriodol, afresymol neu esgeulus" neu weithred neu anwaith arall gan barti neu gynrychiolydd, lle mae'r ymddygiad hwnnw'n arwain at dreuliau diangen i bartïon eraill. Byddai'n annheg i bartïon eraill pe bai un math o barti neu gynrychiolydd yn cael imiwnedd rhag y sancsiwn hwnnw oni bai bod tystiolaeth glir bod diffyg imiwnedd o'r fath yn cael effaith ataliol wirioneddol ar rai mathau o barti. Mae'n bendant yn rhy gynnar i benderfynu a allai hyn ddigwydd. Mae rheol 55 yn creu pŵer, a bydd gan y Tribiwnlys y disgrisiwn i'w ddefnyddio ai peidio. Byddai ffactorau fel adnoddau ariannol y parti a'r sail y mae cynrychiolydd yn gweithredu arni yn amlwg yn berthnasol i'r broses o arfer y disgrisiwn hwn heb fod angen rhestru'r ffactorau hynny'n benodol.

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
			Fodd bynnag, byddai'n ddymunol pwysleisio'r ffaith nad oes angen i orchymyn, os caiff un ei wneud, fod yn gysylltiedig â'r holl gostau a ysgwyddwyd gan y parti arall, ac mae paragraff (2)(a) wedi'i ddiwygio yn unol â hynny.
60	Mae rheol 60 yn caniatáu'r Tribiwnlys gyhoeddi ei benderfyniadau. Os yw argymhelliad y Comisiynydd ynghylch yr angen i gynnal rhai gwrandawiadau yn breifat cael ei dderbyn, yna gall fod angen golygu rhai penderfyniadau cyn eu cyhoeddi.	Comisiynydd y Gymraeg	Derbyniwyd a diwygiwyd y geiriad mewn ffordd sy'n gyson â rheol 38.
63	(Responding to Q8) Yes	Cyngor Sir y Fflint	Nodwyd.
63	(Ymateb i C.8) Nac oes - Dylid cyflwyno amryw o ddulliau – yn sicr post ac ebost er mwyn sicrhau tegwch. Gellir hefyd ystyried priodolrwydd cynnig sgôp ar gyfer danfon â llaw. Hyderaf fod e-bost wedi cymryd lle cysylltu â ffacs yn y mwyafrif llethol o sefyllfaoedd, ond rhaid ystyried hefyd fod angen i'r gweithdrefnau yn Nhribiwnlys yr Iaith Gymraeg fod yn gyson o ran disgwyliadaeth a thribiwnlysoedd eraill.	Catrin Fflur Huws	Nodwyd. Mae danfon â llaw eisoes wedi'i gynnwys.
63(6)	(Responding to Q9) Yes – Yes this should be allowed; parties should be able to receive any documentation in a format of their choice, as a reasonable adjustment under the Equality Act 2010.	Cyngor Sir y Fflint	Nodwyd.
63(6)	(Ymateb i C.9) Ydy - Credaf fod hyn yn dderbyniol, ond rhaid mynegi pwy sydd yn darparu y copi caled – y parti ynteu'r tribiwnlys. Y mae'n bwysig oherwydd fe all parti gynnig	Catrin Fflur Huws	Y sawl sy'n danfon dogfen yn electronig sy'n gorfod darparu copi caled os bydd y sawl sy'n ei derbyn yn mynnu hynny. Mae

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
	swmp helaeth o dystiolaeth – ac wrth gwrs bydd angen cyfeirio at y dystiolaeth hwnnw mewn achos llys. Gan hynny, dylai copïau caled gael eu darparu.		hyn yn ddarpariaeth safonol.
	<p>(Responding to Q4) Agree – This will ensure that both parties do not become involved in unnecessary resource intensive activities in preparation for the Tribunal. However, the Tribunal should publish their rationale for why they consider a hearing is not necessary; the Tribunal should also be accountable for its decisions. The ability to appeal against the rejection decision supports the process to be fair, providing opportunities for concerned parties to appeal against the Tribunal’s decision not to hold a hearing.</p> <p>(Responding to Q5) Agree – Yes, this is absolutely essential. This ensures the process is seen to be fair and transparent. Being able to appeal will encourage trust and confidence in both the process and the Tribunal itself.</p>	Cyngor Sir y Fflint	Nodwyd.
	<p>(Ymateb i C.4) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Er bod hyn yn addas mewn egwyddor, rhais ystyried a fyddai gwrandawriad yn briodol mewn rhai cyd-destunau e.e. gyda datagniad mai ar bapur byddai'r adolygiad yn digwydd fel arfer oni bai fod rheswm da dros wrandawriad.</p> <p>Ystyriaeth arall yma yw cymodi ystyron disgwyliad rhesymol a reasonable prospect yn fersiynau Cymraeg a Saesneg rheol 16. Gellid ystyried fod disgwyliad rhesymol yn cyflwyno mwy o naws goddrychol, tra bo reasonable prospect yn awgrymu safbwynt mwy gwrthrychol.</p> <p>(Ymateb i C.5) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Y mae</p>	Catrin Fflur Huws	Nodwyd. O ganlyniad i ail-ystyriaeth o reol 16 gwnaed diwygiad (gweler rheol 16(11)) er mwyn sicrhau na fydd cyfuniad o'r Rheolau a geiriad adran 105(1) a (2) yn amddifadu ceisydd o'r gallu i herio penderfyniad y Tribiwnlys i wrthod caniatâd i wneud cais o dan adran 103.

Rheol	Ymateb/Sylwadau	Sefydliad / Person	Ymateb TyG
	<p>oblygiadau sylweddol i hyn. Ar y naill law, dylid osgoi sefyllfaoedd lle gall broses gyfreithiol fynd o ail-wrandawriad i ail wrandawriad. Serch hynny, mewn materion megis lle byddai'r penderfyniad yn cyflawni yr un amodau a fyddai yn cyfiawnhau adolygiad barnwrol, efallai y dylai fod sgôp er mwyn i'r mater gael ei ail-ystyried.</p>		
	<p>(Ymateb i C.2) - Mater i'w ystyried yw effaith y rheol arferol y gellir clywed achos sifil mewn lleoliad o ddewis y diffynnydd. O ystyried mai'r Comisiynydd Iaith fydd y parti hwn mewn nifer o achosion a yw'n debygol o olygu fod y tribiwnlys yn eistedd yng Nghaerdydd, a beth yw oblygiadau hyn o ran mynediad at gyfiawnder o ystyried y pellter teithio o Ogledd Cymru i Gaerdydd?</p>	<p>Catrin Fflur Huws</p>	<p>Nid yw'r Rheolau'n rhoi hawl i unrhyw barti penderfynu lleoliad gwrandawriad – mae'n fater i'r Tribiwnlys benderfynu.</p>